

Brechdanau

Dwi'n hoffi helpu yn y gegin
I fwydo'n teulu ni
Dwi'n hoffi gwneud brechdanau
I fi a ti a chi!

A bwyta...

Tiwna a chiwcymbr
Ham pinc a thomatos
Brechdan *wy* yw'r orau –
alla i ddim aros
Bwyta winwns, caws a letys
Hwmws a ffalaffel –
alla i ddim aros!

Dwi'n hoffi bara meddal –
heb dorri crystiau bant
A mynydd mawr o feionês
Mae hynna at fy nant!

A bwyta...

Tiwna a chiwcymbr
Ham pinc a thomatos
Brechdan *wy* yw'r orau –
alla i ddim aros
Bwyta winwns, caws a letys
Hwmws a ffalaffel –
alla i ddim aros!

Wps – sori!

Mae'r gân yn cyflwyno
/ *The song introduces:*

Geirfa: bwydydd amrywiol
(cynhwysion brechdanau yn benodol)
Various foods
(specifically sandwich fillings)

brechdan (sandwich)
tiwna (tuna)
chiwcymbr (cucumber)
ham pinc (pink ham)
Tomatos (tomatoes)
wy (egg)
winwns (onions)
caws (cheese)
letys (lettuce)
hwmws (hummus)
ffalaffel (falafel)

Patrymau iaith / *Language Patterns:*
Dwi'n hoffi ... (I like ...)
...yw'r (g)orau! (... is the best!)
Alla i ddim aros! (I can't wait!)